Ymgyrchu Dros Gartrefi Clyd
Campaigning for Warm Homes

Fforymau Tlodi Tanwydd De a Gogledd Cymru

Adrodd yn Ôl
Ebrill 2008

NEA Cymru
Nuria Zolle, Cyfarwyddwr
nuria.zolle@nea.org.uk

Jane Edgington, Swyddog Hyfforddi a Datblygu
Jane.edgington@nea.org.uk

Ciplun o'r adroddiad hwn….

Ynglŷn â Fforymau Tlodi Tanwydd Cymru (tud 3)

Gwrandewch! (tud. 4)

Y trafodaethau (tud. 5)

Canfyddiadau allweddol (tud. 6-10)

Y Camau Nesaf (tud. 11)

Fforymau Tlodi Tanwydd

Mae NEA Cymru'n cynnal Fforymau Tlodi Tanwydd yng Ngogledd a De Cymru. Anelir y cyfarfodydd at wneuthurwyr polisi strategol, darparwyr gwasanaeth, a grwpiau cymunedol, yn ogystal ag unigolion a diddordeb sydd eisiau cael gwared a thlodi tanwydd yn eu cymunedau.

Prif amcanion y fforwm:

- darparu lleoliad i rwydweithio a rhannu profiadau;
- codi ymwybyddiaeth o dlodi tanwydd ac addysgu eraill am y gwaith sy'n cael ei wneud;
- helpu i addysgu a dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau polisi;
- gosod esiampl a dangos bod pawb yn ennill o fynd i'r afael a thlodi tanwydd.

Canlyniadau disgwyliedig:

- ymchwilio polisi a mentrau ymarferol yn ymwneud a thlodi tanwydd a darparu datrysiadau effeithlonrwydd ynni ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- arddangos darpariaeth arloesol ac ymarfer gorau
- hyrwyddo deialog a thrafodaeth ar amrywiaeth eang o faterion.

Mae'r Fforymau am ddim ac mae croeso i bawb a diddordeb mewn tlodi tanwydd fynychu!

Gwrandewch!

Y mis hwn mynychodd dros 110 o gyfranogwyr Fforymau Tlodi Tanwydd De a Gogledd Cymru (y lefel uchaf o fynychwyr erioed!).

Mae codiadau prisiau ynni yn effeithio arnom i gyd, ond maent yn cael effaith llymach ar aelodau ein cymuned sy'n fwyaf agored i niwed, sy'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd yn aml ar draul eu hiechyd a lles. Yn sesiynau fforymau De a Gogledd Cymru, nododd cyfranogwyr bod angen dod a gweithwyr datblygu ar draws Cymru sydd mewn cysylltiad uniongyrchol gyda grwpiau agored i niwed at ei gilydd i gyflwyno'u syniadau am weithredu. Fe ddywedon nhw ei bod yn bwysig bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried barn cyfranogwyr y fforymau. Mae'r fforymau'n cynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o weithredu'r polisïau sy'n cael effaith ar bobl go iawn ac sy'n gwybod beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio, ac felly mae ganddynt gyfoeth o wybodaeth ac ymroddiad i weithio gydag eraill i helpu i fynd i'r afael a thlodi tanwydd.

Fe dynnon nhw sylw arbennig at yr angen i'w hymrwymo yn yr adolygiad o strategaeth tlodi tanwydd a'u dymuniad i sicrhau bod y Grŵp Cynghori Tlodi Tanwydd a Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried eu hargymhellion/awgrymiadau. Mae NEA Cymru wedi bod yn briffio cynrychiolwyr Grŵp Cynghori Tlodi Tanwydd ar fforymau tlodi tanwydd yn rheolaidd a bydd yn parhau i sicrhau bod y negeseuon hyn yn cael eu cyfleu. Byddwn hefyd yn trafod ffordd o sicrhau bod cynrychiolwyr Fforwm yn gallu bwydo'r adolygiad o strategaeth tlodi tanwydd gyda swyddogion y Llywodraeth.

Mae angen adeiladu ar yr ymrwymiad a pherchnogaeth hwn o'r agenda tlodi tanwydd ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chyfranogwyr i helpu i feithrin y cysylltiadau all arwain at gydweithrediad a dealltwriaeth well o sut y gallwn helpu i gael gwared a thlodi tanwydd yng Nghymru gyda'n gilydd.

Mae cyfranogwyr wedi gofyn i ni gadw ein adroddiad yn fyr felly rydym wedi pwysleisio rhai o'r syniadau/sylwadau ac awgrymiadau allweddol a gasglwyd ar y diwrnod. Mae copi llawn o'r holl drawsgrifiadau/sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr yn eu ffurflenni adborth ar gael os gwneir cais.

Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i **Andrew Lloyd (SWALEC), Heather Watts (Scottish Power), Julia Williams (Llywodraeth Cynulliad Cymru)** a **Megan Meeke (Shelter Cymru)** a **Carol Martin (GICC)** am rannu eu gwybodaeth ac arbenigedd.

Hoffem hefyd ddiolch i gyfranogwyr ac edrychwn ymlaen at fwy o rwydweithio yn y dyfodol!

Nuria Zolle
Cyfarwyddwr, NEA Cymru
Ebrill 2008

Y trafodaethau

Mewn fforymau gwahoddir prif siaradwyr i rannu eu harbenigedd a gwybodaeth o sut y gellir cael gwared a thlodi tanwydd yng Nghymru. Yn sesiwn fforwm De Cymru siaradodd Alan Lloyd (SWALEC) am rôl CERT (Targed Lleihau Allyriadau Carbon) a disgrifiodd Julia Williams (Ll.C.C.) weithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael a thlodi tanwydd. Yn anffodus nid oedd Carol Martin (GICC) yn gallu mynychu'r sesiwn fforwm hwn ond rhannwyd cyflwyniad byr gyda chyfranogwyr ar y cysylltiadau rhwng tlodi tanwydd ac iechyd. Yn y sesiwn yng Ngogledd Cymru siaradodd Heather Watts (Scottish Power) am dariff cymdeithasol y cwmni, siaradodd Megan Mekeen (Shelter Cymru) am safon SATC a chafwyd cyflwyniad gan Carol Martin (GICC) yn egluro synergeddau rhwng gweithredu i fynd i'r afael a thlodi tanwydd ac atal afiechyd.

Yn dilyn cyflwyniadau'r siaradwyr cynhaliwyd gweithdai cyfranogol ble gofynnwyd i gyfranogwyr drafod meysydd allweddol mewn grwpiau a meddwl am syniadau ar gyfer gweithredu neu ganfod meysydd ar gyfer cydweithio pellach. Anogwyd cyfranogwyr i gymryd rhan weithredol ac i rwydweithio gyda chydweithwyr fel y gallwn blannu had gyda'n gilydd ar gyfer cydweithrediadau yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y sesiynau gofynnwyd i gyfranogwyr gwblhau ffurflen adborth er mwyn ein helpu i ganfod beth sy'n gweithio, yn ogystal â themâu allweddol ar gyfer gweithdai yn y dyfodol.

Llwyddodd aelodau'r fforwm i ganfod nifer o faterion all helpu i addysgu Grŵp Cynghori Tlodi Tanwydd Cymru pan fydd yn ystyried gwneud argymhellion i Jane Davidson, Gweinidog dros Dai, Cynaladwyedd a'r Amgylchedd. Cynhwysir y prif ganfyddiadau yn yr adroddiad hwn, ond mae trawsgrifiadau llawn ar gael os gwneir cais.

Helpu i gyflawni targedau ymrwymiad tlodi tanwydd Cymru

Trafodwyd nifer o faterion:

- **Canfod y mecanweithiau cyllid sydd ar gael i fynd i'r afael a thlodi tanwydd.**
- **Beth yw'r ffordd orau i ni sicrhau bod grwpiau anodd eu cyrraedd ac agored i niwed yn derbyn eu hawliau llawn o ran derbyn grantiau a budd-daliadau?**
- **Sut allwn ni fynd i'r afael a thlodi tanwydd mewn amgylchedd o brisiau ynni cynyddol?**
- **Sut allwn ni ymrwymo ac annog landlordiaid preifat i weithredu?**

Canfod y mecanweithiau cyllid sydd ar gael i fynd i'r afael a thlodi tanwydd

Llwyddodd cyfranogwyr i ganfod nifer o ffynonellau cyllid posib. Fodd bynnag, nid oedd pawb yn ymwybodol o rai o'r ffynonellau cyllid ar gael. Roedd cyfranogwyr eisiau gwybod mwy am gyllid cwmnïau ynni a'r tariffiau ar gael i grwpiau agored i niwed. Trafodwyd hefyd sut y mae perswadio deiliaid tai o bob grŵp eco gymdeithasol i gymryd mantais o'r help sydd ar gael yn cael ei rwystro gan y gormodedd o raglenni cyllid sy'n weithredol. Roeddent eisiau gwybod mwy am y rôl y mae CERT a rhaglenni cyfleustodau eraill yn eu chwarae yng Nghymru. Pwysleisiwyd yn arbennig y diffyg dealltwriaeth o sut mae cael mynediad i, a phwy sydd gan fynediad i, gronfeydd cyfleustodau a faint sydd ar gael. Ymysg rhai o'r mecanweithiau cymorth cyllid/cronfeydd yr oeddent eisiau mwy o wybodaeth amdanynt roedd:

- Cronfeydd ymddiriedolaeth cyfleustodau
- Benthyciadau argyfwng
- Tariffau Cymdeithasol
- CERT

Nododd y cyfranogwyr hefyd nifer o Gronfeydd Elusennol a grantiau sector gwirfoddol sy'n gallu ariannu gweithredu ar dlodi tanwydd.

- Y Loteri Fawr, Comic Relief
- Undebau Credyd

Nodwyd hefyd nifer o gynlluniau grant sector cyhoeddus a ddarparir gan awdurdodau lleol a ffrydiau ariannu Ewropeaidd.

- Cyllid Ewropeaidd (Cydgyfeiriant)
- Rhaglenni cyfalaf Awdurdod Lleol
- Grantiau adnewyddu tai a chymorth tŷ

Pwysleisiodd cyfranogwyr bod rhannu ffrydiau ariannu sydd wedi cefnogi gweithredu ar dlodi tanwydd yng Nghymru'n gallu helpu i annog eraill i wneud yr un peth a byddai'n datgyfrinio'r broses ariannu. Pwysleisiwyd hefyd bod ariannu tymor byr yn broblem gylchol sy'n achosi cau mentrau a phrosiectau da.

Beth yw'r ffordd orau i ni sicrhau bod grwpiau anodd eu cyrraedd ac agored i niwed yn cael eu hawliau llawn o ran derbyn grantiau a budd-daliadau?

Nododd cyfranogwyr restr eang yn cynnwys staff rheng flaen a darparwyr gwasanaeth allweddol yn ogystal ag Arweinwyr Cymunedol dibynadwy neu gynghorwyr allai annog pobl i gymryd y grantiau a budd-daliadau. Ni roddwyd lefel uwch o flaenoriaeth i unrhyw gyswllt unigol; mae hyn yn dynodi bod angen i unrhyw ymyriad llwyddiannus ymateb yn ddigonol i anghenion, nodweddion ac amgylchiadau sy'n effeithio ar aelwydydd o fewn unrhyw ardal.

- Grwpiau Cymunedol/Clybiau/Grwpiau Eglwysi/Canolfannau Dydd
- Awdurdodau Lleol, Ymarferwyr Cyffredinol, Ymwelwyr Iechyd, Cynghorwyr a Chynghorau Trefi

Y mathau mwyaf cyffredin o ymyriad oedd digwyddiadau ymwybyddiaeth ac ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd. Disgrifiwyd ymyriadau fel rhywbeth sydd angen *"Arwr Cymuned",* neu fod angen iddynt, "*Ddarparu gwasanaeth gwaith achos llawn i gwblhau ffurflenni, eirioli ar ran pobl, cynrychioli mewn apeliadau".* Nododd cyfranogwyr hefyd yr angen i sicrhau bod unrhyw wybodaeth a gynigir yn hygyrch ac wedi ei deilwra i ddiwallu anghenion grwpiau agored i niwed.

- Cyfieithu gwybodaeth, defnyddio slipiau talu pobl, cardiau apwyntiad meddyg, drws i ddrws, gyda chwistrelliad ffliw

Pwysleisiwyd hefyd yr angen i sefydlu mecanweithiau cyfeirio all helpu i sicrhau bod grwpiau agored i niwed yn derbyn cyngor cyfannol gan gyrff penodol (yr un a nodwyd fwyaf oedd meddygfa meddyg teulu).

Mae'n bwysig hefyd pwysleisio bod rhai cynrychiolwyr sector yn cael eu disgrifio fel ffynonellau gwybodaeth "dibynadwy" a bod angen gwella ein dealltwriaeth o'r rôl benodol y mae sectorau gwahanol yn eu chwarae wrth geisio mynediad i grwpiau anodd eu cyrraedd.

Sut allwn ni fynd i'r afael a thlodi tanwydd mewn amgylchedd o brisiau ynni cynyddol?

Nododd cyfranogwyr bod cyngor ynni yn declyn grymus i gyflawni arbedion ynni, yn ei rinwedd ei hun ac wedi ei gyfuno gyda mesurau arbed ynni. Gwelwyd angen am ffordd fwy cysylltiol o weithio yn y maes hwn, a phwysleisiwyd yr angen am *"ddarpariaeth cyngor ynni i gwmpasu derbyn budd-daliadau a chyngor ariannol"*.

Pwysleisiwyd hefyd y rôl mae cwmnïau cyfleustodau'n ei chwarae a'r angen iddynt ystyried:

- Mesuryddion talu o flaen llaw
- Tariffau cymdeithasol
- Prisio sy'n deg a chyfiawn

Pwysleisiwyd hefyd bod angen i gyflenwyr a'r llywodraeth weithio gyda'i gilydd i:

- Sicrhau bod cynhyrchion arbed ynni'n fwy fforddiadwy
- Ystyried taliadau ychwanegol i denantiaid a pherchnogion agored i niwed mewn anheddau gyda dosbarthiad SAP isel na ellir eu gwella
- Cwmnïau tanwydd i beidio â mynd uwchben graddfa chwyddiant (Cynyddiadau Taliadau Tanwydd yn is na chodiadau cost tanwydd) capio gorfodol gan y llywodraeth
- Ystyried darparu tariffau cymdeithasol awtomatig i'r rhai hynny ar fudd-daliadau penodol a gwybodaeth am gynlluniau eraill

Nododd cyfranogwyr yr angen i barhau i lobio'r llywodraeth er mwyn helpu i sicrhau bod y tlawd o ran tanwydd yn cael eu diogelu, a hefyd eu bod yn ystyried anghenion yr anheddau hynny sy'n dlawd o ran tanwydd sydd fymryn uwchben y trothwy budd-daliadau ac sydd ddim yn gymwys ar gyfer cymorth. Cafwyd nifer o syniadau am fentrau, rhai wedi eu hanelu at Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill at San Steffan er enghraifft:

- Darparu cynnydd budd-daliadau yn unol â chwyddiant
- Ehangu cymhwyster ar gyfer taliadau tanwydd gaeaf
- Ystyried meini prawf cymhwyso ar gyfer HEES: a yw'n targedu'r tlawd o ran tanwydd?
- Ystyried ymgyrch i annog derbyn budd-daliad tlodi tanwydd
- Ystyried rhaglen barhaus o welliannau i'w gynnwys yn yr hawl am HEES fel nad oes rheolaeth argyfwng
- Cynghorau i annog deiliaid tai i dderbyn adnewyddadwy e.e. gostwng eu treth cyngor
- Lobio am lwfansau pris rhanbarthol yn yr hawliadau budd-daliadau
- Targedu HEES i anheddau agored i niwed: Sicrhau bod gan holl gymunedau yn gyntaf fynediad i HEES

Sut allwn ni ymrwymo ag annog landlordiaid preifat i weithredu?
Nodwyd nifer o fentrau gan gyfranogwyr; wedi eu hanelu at sicrhau bod landlordiaid preifat yn gweithredu i fynd i'r afael a thlodi tanwydd. Isod ceir rhestr o'r rhai oedd yn fwyaf cyffredin.

- Gorfodaeth gan y cyngor
- Cynnwys gweithredu ar dlodi tanwydd yn system graddio Iechyd a Diogelwch Tai
- Trosglwyddo cynllun achredu Awdurdodau Lleol
- Tystysgrif Perfformiad Ynni yn gysylltiedig gyda gwasanaethau swyddog rhent – ysgogiad landlordiaid
- Gweithdrefn gwyno effeithiol – dadfeddiannu dialgar
- Ymrwymo gyda nhw pan ar fin prynu – yn arbennig datblygwyr newydd sy'n ymwneud a chynlluniau 'prynu i osod'
- Symleiddio/egluro cynllunio a cheisiadau am grant

Safon Ansawdd Tai Cymru a thlodi tanwydd

Trafodwyd sawl maes:

- **Beth yw'r prif rwystrau i sicrhau bod holl stoc tai presennol Cymru yn cyrraedd safon ddigonol ar gyfer iechyd a chynhesrwydd?**
- **Beth ellir ei wneud i ddelio gyda'r rhwystrau i wella'r stoc tai?**
- **All gwelliannau tai yn unig fynd i'r afael a thlodi tanwydd? Eglurwch eich rhesymau pam**

Beth yw'r prif rwystrau i sicrhau bod holl stoc tai presennol Cymru'n cyrraedd safon ddigonol ar gyfer iechyd a chynhesrwydd?

Nododd cyfranogwyr mai'r rhwystr mwyaf i weithredu Safon Ansawdd Tai Cymru yw'r cyllid sydd ar gael. Nodwyd hefyd bod natur stoc tai Cymru (nwy ddim ar y prif gyflenwad/waliau cadarn), yn rhwystr mawr sy'n gwneud gweithredu safonau effeithlonrwydd ynni'n anodd mewn rhai ardaloedd. Nodwyd hefyd diffyg targedu o ran ai tlodi tanwydd neu effeithlonrwydd ynni oedd angen ei flaenoriaethu.

Codwyd hefyd materion yn ymwneud a'r diffyg gwybodaeth o ran grantiau a ffrydiau arian eraill all helpu i wella stoc tai, yn ogystal â diffyg gweithio mewn partneriaeth rhwng grwpiau cyhoeddus, preifat a chymunedol. Rhwystrau eraill i weithredu SATC a nodwyd yn arbennig oedd:

- Diffyg cosb am beidio â chyrraedd SATC
- Anghysondeb wrth adrodd ar Gyflwr Stoc Tai (SATC)

Beth ellir ei wneud er mwyn delio gyda'r rhwystrau i wella'r stoc tai?

Dywedodd cyfranogwyr y byddai dull wedi ei dargedu'n well yn help (dull yn seiliedig ar ardal er enghraifft), gyda gwell gwybodaeth o stoc tai cymuned ac anghenion cymunedol yn yr ardal. Nodwyd hefyd wybodaeth am y fath o dai a gorfodaeth system o adrodd sy'n cynnwys fframwaith perfformiad.

- Dylai LlCC sicrhau bod pob ALl a Chymdeithas Tai'n defnyddio'r un mecanweithiau adrodd a dulliau o goladu gwybodaeth a systemau gwybodaeth e.e. Arolygu effeithlonrwydd ynni, cyflyrau stoc.

Codwyd materion o anghysondeb o ran y dulliau a ddefnyddir. Arweiniodd hyn at ddiffyg llywio, ynghyd a diffyg arweiniad ac unrhyw ffurf o asesiad cymaradwy all helpu i sicrhau bod perfformiad yn cael ei asesu trwyddi draw.

Gwelwyd bod gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r holl gyllid sydd ar gael yn cynnwys CERT yn allweddol i helpu sicrhau bod landlordiaid yn cyrraedd SATC. Ar y thema o fanteisio ar yr holl ffynonellau incwm posib i helpu i fynd i'r afael a thlodi tanwydd fe bwysleisiodd rhan ddeiliaid yr angen i sicrhau:

- Bod LlCC yn ystyried yn ei adolygiad o HEES a chytundeb gyda EAGA a allant fanteisio ar y cyllid os ydynt yn gadael i gyfleustodau ariannu mesurau insiwleiddio a bod LlCC dim ond yn ariannu systemau gwresogi a mesurau sydd ddim yn rhan o CERT.

All gwelliannau tai yn unig fynd i'r afael a thlodi tanwydd? Eglurwch eich rhesymau pam

Dywedodd cyfranogion tra bod mesurau effeithlonrwydd ynni a gwella tai yn gallu helpu i wella cyflwr tai ar incwm isel a'u helpu i ostwng costau, ni fyddai gwelliannau tai yn unig yn helpu i fynd i'r afael a phroblemau tlodi tanwydd:

- Ni ellir mynd i'r afael a thlodi tanwydd heb fynd i'r afael a thlodi – gwell isafswm cyflog a lefelau budd-daliadau
- Mae materion cymdeithasol yn bwysig ac angen eu hystyried, ni fydd gwelliannau tai traddodiadol yn gweddu i gyflwr rhai tai a gall cynlluniau adnewyddu bach fod yn rhy gostus

Cysylltiad: iechyd a thlodi tanwydd

Mewn sesiynau blaenorol roedd cyfranogwyr wedi cynnig syniadau ar sut y gallwn weithio gyda'n gilydd gyda'r sector iechyd i fynd i'r afael a thlodi tanwydd:

- Codi ymwybyddiaeth o effeithlonrwydd ynni a chyngor ar arbed arian
- Darparu mecanweithiau cyfeirio ar gyfer HEES trwy gyfrwng meddygfa meddyg teulu
- Helpu i rannu adnoddau ac arbenigedd
- Cysylltu gweithredu BILl gyda chynlluniau tlodi tanwydd
- Cyflwyno arwyr ynni ymysg gweithwyr iechyd
- Cysylltu gweithredu ar dlodi tanwydd gyda Strategaethau Gofal Iechyd a Lles Cymdeithasol ardaloedd lleol
- Gall staff rheng flaen helpu i sicrhau bod cyngor yn cyrraedd grwpiau agored i niwed

- Helpu gyda phrosiectau wedi eu hanelu at gefnogi pobl gyda phroblemau iechyd meddwl

Gofynnwyd i grwpiau o gyfranogwyr osod y rhain mewn siart cydberthynas i helpu i ddangos pa mor hawdd neu anodd fyddai eu cyflawni a'r effaith (isel neu uchel) yr oeddent yn teimlo y byddai gan y camau hyn ar grwpiau incwm isel. Anogwyd cyfranogwyr hefyd i feddwl am syniadau newydd ar gyfer gweithredu.

I nifer o'r gweithredoedd, doedd dim consensws clir a oeddent yn hawdd i'w cyflawni neu'n effeithiol iawn. Mae hyn ynddo'i hun yn adlewyrchu'r anawsterau a brofodd grwpiau wrth geisio blaenoriaethu a graddio gweithredoedd. Tra ystyriwyd bod y rhan fwyaf o weithredoedd yn bwysig roedd rhai grwpiau'n methu a phenderfynu a fyddai effaith y gweithredoedd hyn yn uchel neu'n isel. Fodd bynnag, roedd rhai cydberthnasau cryf ymysg rhai grwpiau all helpu i addysgu ein penderfyniad ar ba weithredoedd fyddai (yn ôl cyfranogwyr) yn hawdd i'w gweithredu a gyda'r mwyaf o effaith petaem ni'n eu blaenoriaethu:



Y Camau Nesaf

- Anfonir copi o'r adroddiad hwn at **Grŵp Cynghori Tlodi Tanwydd Cymru** ar **Ebrill 22ain.** Sefydlwyd y Grŵp i gynghori'r Gweinidog ar gyfer Tai, Cynaladwyedd, a'r Amgylchedd gyda chyfrifoldeb dros gael gwared a thlodi tanwydd.
- Bydd y fforymau tlodi tanwydd nesaf yn digwydd;
  De Cymru- Mawrth 18fed Tachwedd, Y Fenni
  Gogledd Cymru- Mercher 19eg Tachwedd, Llangollen

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y fforwm tlodi tanwydd nesaf!